YSGOL BRO
CAEREINION

# Prosbectws 2022 - 2023



**Cynnwys**




**3** Manylion yr Ysgol

4 Gair gan y Pennaeth

5-7 Staff yr Ysgol

8 Y Corff Llywodraethol

9-10 Oriau Ysgol

11 Dwyieithrwydd

12 Clwb Brecwast / Clwb ar ôl Ysgol / Cinio Ysgol

13 Polisi Mynediad i'r Ysgol

14 Diogelu ac Amddiffyn Plant

15 - 18 Y Cwricwlwm (gan cynnwys Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol)

19 Chwaraeon ac Addysg Gorfforol

20 Anghenion Dysgu Ychwanegol

21 Cyfleoedd Cyfartal / Cyfleoedd Cyfartal i Rai ag Anableddau

22 Pwyllgorau Llais y Disgybl

23 Gwaith Allgyrsiol ac Ymweliadau Addysgol

24 Gwisg Ysgol

25 Asesu / Cefnogaeth Cartref / Gwersi Offerynnol

26 Ffrindiau Ysgol / Presenoldeb / Trafnidiaeth

27 Plant mewn Gofal / Toiledau / Polisi Codi Tal / Polisi Cwynion

28 ATODIAD 1 - Aelodau'r Corff Llywodraethol

29 ATODIAD 2 - Dyddiadau'r Tymhorau 2022 - 2023

**Croeso**



Croeso i Ysgol Bro Caereinion.

Manylion yr Ysgol

**Pennaeth**: Mr Huw Lloyd Jones

Cyfeiriad: Ysgol Bro Caereinion
Pool Road
Llanfair Caereinion
SY21 0HW

Rhif Ffôn: 01938 810888 (Campws Uwchradd) / 01938 810470 (Campws Cynradd)
Ebost: office@brocaereinion.powys.sch.uk
Facebook: @brocaereinion

Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mr Gareth Jones

Math o Ysgol: Ysgol gynradd benodedig dwyieithog.

Nifer o Ddisgyblion: 572

Campws Cynradd: 142
Campws Uwchradd: 430



Ysgol Bro Caereinion
Pool Road
Llanfair Caereinion
September 2022

Gair gan y Pennaeth

**Croeso i Ysgol Bro Caereinion, ysgol dwy ffrwd newydd pob oed sy'n gwasanaethu tref Llanfair Caereinion a'r cyffiniau.**

**Cymuned ysgol gynhwysol yw Ysgol Bro Caereinion sy'n caniatáu i ddisgyblion ymgymryd â'u dysgu o 4 i 18 oed.**

**Mae'r ysgol yn ysgol ofalgar, glos, gydag ymdeimlad o deulu, lle mae pawb yn gwybod ac yn gofalu am ei gilydd. Mae perthynas dda iawn rhwng staff a disgyblion.**

**Ein nod yw sicrhau cyrhaeddiad academaidd a chyfoethogiad personol pob disgybl mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol. Mae staff Bro Caereinion yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd hapus a gofalgar lle mae meithrin perthnasoedd cryf wrth wraidd ein hethos a'n gwerthoedd.**

**Mae gan yr ysgol hunaniaeth Gymraeg gref iawn sy'n adlewyrchu'r ardal y mae'n ei gwasanaethu. Ein nod yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, hanes a diwylliant trwy ein cwricwlwm sydd newydd ei ddatblygu. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig yn y rhan fwyaf o'n pynciau ac ein nod yw i bob plentyn gyrraedd y lefel uchaf posibl o rugldER yn y Gymraeg a'r Saesneg.**

**Yn ogystal â darparu profiad dysgu o ansawdd uchel, mae pob disgybl yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau diwylliannol, cerddorol a chwaraeon drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol.**

Darllenwch ymlaen am ragor o wybodaeth. Ni fwriedir i'r prosbectws hwn ddisodli ymweliad â'r ysgol. Mae croeso i chi ymweld â'r ysgol, i gael blas ar yr awyrgylch a chael cyfle i drafod addysg a dyfodol eich plentyn.

Huw Lloyd Jones
Headteacher

**Staff yr Ysgol:**
Pennaeth: Mr Huw Lloyd Jones
Dirprwy Bennaeth: Mr Edward Baldwin

Pennaethiad Cynorthwyol
Arweinydd Cyfnod Derbyn i Flwyddyn 4 ac Arweinydd Strategol Cynradd: Miss Laura Jones
Arweinydd Cyfnod Blwyddyn 5 i Flwyddyn 8: Miss Rhian Mills
Arweinydd Cyfnod Blwyddyn 9 i Flwyddyn 13: Mr Mike Humphreys
CADU: Mrs Ceri Harris

Dirprwyon Arweinydd Cyfnodau

Cyfnod 1 (Derbyn i Flwyddyn 4): Mrs Sioned Chapman Jones
Cyfnod 2 (Blwyddyn 5 i Flwyddyn 8): Mrs Alison Evans
Cyfnod 3 (Blwyddyn 9 i Flwyddyn 11): Miss Mollie Corfield
(Blwyddyn 12 i Flwyddyn 13): Mr Sam Andrew

Arweinwyr a Dirprwyon MDaPh:

Arweinydd Mathemateg a Rhifedd: Mr Greg Parker
Diprwy Arweinydd Mathemaetg a Rhifedd: Mr Iain Messenger

Arweinydd Saesneg ac Ieithoedd Tramor Modern: Miss Shan Hughes
Dirprwy Arweinydd Saesneg ac Ieithoedd Tramor: Mrs Gemma Davies

Arweinydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Mr Rhodri Davies
Dirprwy Arweinydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Mr Tudor Jones

Arweinydd Dyniaethau Mrs Liwsi Merrigan
Arweinydd Celfyddydau Mynegiannol: Mr Osian Davies
Arweinydd Iechyd a Lles: Mr Llyr William

**Arweinydd Cymhwysterau Ychwanegol (Bagloriaeth Cymru a Galwedigaetho):**
Mrs Sioned Myles

Athrawon Cyfnod Cynradd:

Derbyn, Blwyddyn 1 a 22: Miss Laura Jones, Mrs Mirain Jones, Mrs Gail Jones

Blynyddoedd 3 a 4: Mrs Nia Ellis, Mrs Alison Hopkins, Mrs Sioned Chapman-Jones

Blynyddoedd 5 a 6: Mrs Alison Evans, Mrs Angela Owen



Athrawon Cyfnod Uwchradd:

Cymraeg: Mrs Angharad Lewis, Miss Delyth Roberts, Miss Hannah Jones

Mathemateg: Mr Greg Parker, Mr Iain Messenger, Mr Matthew Jones, Mr Elwyn Davies

Saesneg a Ieithoedd Tramor Modern: Miss Shan Hughes, Mrs Gemma Davies, Mr Sam Andrew, Mrs Louise Morris, Mrs Rachel Ashton-Roberts, Mrs Ruth McCloughry

Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Mr Tudor Jones, Mr Chris Davies, Mr Gareth Griffiths, Mr Gareth Smith, Mrs Sian Owen, Mrs Meinir Jones, Mr Aled Williams, Dr Neal Jones

Dyniaethau: Mrs Liwsi Merrigan, Mrs Sioned Myles, Mrs Julie Leoni, Mrs Elen Griffiths, Miss Ffion Morgan, Miss Anwen Evans

Celfyddydau Mynegiannol: Mr Osian Davies, Mr Huw Richards

Iechyd a Lles: Mr Llyr Williams, Mrs Catrin Jones, Mrs Ceri Harris

Bugeiliol: Mrs Manon Watkin

Goruchwylwyr Llanw: Mrs Nicola Lewis, Mrs Emma Fitzgerald

Cynorthwywyr Addysgu:
Cyfnod Cynradd: Miss Rowena Huxley (HLTA), Miss Ffion Evans, Mrs Ffion Williams, Mrs Gwen Edwards, Mrs Naomi Perks, Mrs Beth King

Cyfnod Uwchradd: Mrs Gwyneth Phillips (HLTA), Mr Neil Jones, Mrs Ann Lloyd

Arweinydd Clwb Brecwast: Mrs Beth King

Staff Clerigol: Mrs Eluned Davies, Mrs Sian Weaver, Mrs Jane James, Mrs Ruth Tudor

Goruchwylwyr Amser Cinio: Mrs Doreen Jones, Miss Rowena Huxley, Mrs Gwen Edwards, Mrs Ffion Williams, Miss Ffion Evans

Gofalwyr: Mr Glyn Lloyd, Mr Glyn Morris

Glanhawyr: Ms Lynda Grieve, Mrs Julie Smith, Mr Dewi Owen, Mrs Jayne Howe, Mrs Diane Wynne, Mrs Michelle Evans, Mr James Faulkner, Mrs Diane Mrris, Mrs Ann Robinson



## Y Corff Llywodraethol

Cynrychiolir y cyrff canlynol ar fwrdd Llywodraethwyr yr ysgol:

- Y Cyngor Sir
- Rhieni
- Staff Dysgu
- Staff Cynorthwyol
- Aelodau’r Gymuned Leol sydd wedi eu cyfethol

Mae rôl y Llywodraethwyr wedi datblygu'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar y cyfan, maen nhw'n gyfrifol am:

• Osod gweledigaeth, ethos a chyfeiriad strategol clir i'r ysgol;
• Dal y pennaeth i gyfrif am berfformiad addysgol yr ysgol a'i disgyblion;
• Goruchwylio perfformiad ariannol yr ysgol a sicrhau bod y gyllideb yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Maent yn cwrdd o leiaf unwaith bob hanner tymor er mwyn cyflawni eu dyletswyddau llywodraethu. Mae'r Corff Llywodraethol yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol i Rieni. Dilynir hyn gan gyfarfod â rhieni (os bydd mwy na thri rhiant yn gofyn amdano) i drafod yr adroddiad ac unrhyw fater arall sy'n ymwneud â dyletswyddau'r Llywodraethwyr i'r ysgol. Rydych chi fel rhiant yn ethol tri rhiant lywodraethwr am gyfnod o bedair blynedd. Fe'ch hysbysir pan fydd cyfnod yr etholiad nesaf.

Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn gweithio mewn partneriaeth agos a chyfartal i sicrhau bod yr addysg orau bosibl yn cael ei darparu i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion. Cyflawnir hyn trwy gyfarfodydd is-bwyllgorau rheolaidd, monitro gweithgareddau fel teithiau dysgu, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar lyfrau.

Aelodau y Corff Llywodraethol - Gweler ATOTIAD 1

**Oriau Ysgol - Campws Cynradd**

| | Cyfnod Sylfaen | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Cofrestru | 08:55 | 08:55 |
| Gwersi'n dechrau | 09:00 | 09:00 |
| Egwyl bore | 10:15 – 10:30 | 10:30 – 10:45 |
| Cinio | 12:00 – 13:00 | 12:00 – 13:00 |
| Gwersi'r Prynhawn | 13:00 - 15.15 | 13:00 - 15.20 |
| Egwyl Prynhawn | 14:15 – 14:30 | |
| Diwedd Ysgol | 15:15 | 15:20 |

**Oriau Dysgu Cyfnod Sylfaen:** 23 awr

Oriau Dysgu Cyfnod Allweddol 2: 25 awr

Disgwylir bod y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Os oes disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, hynny yw, ar ôl y cyfnod cofrestru, rhaid i'r rhiant arwyddo a nodi rheswm dros fod yn hwyr mewn llyfr pwrpasol yn y swyddfa.

Dyddiadau'r Tymhorau - Gweler ATODIAD 2



Oriau Ysgol - Campws Uwchradd

| | |
|---|---|
| **Cofrestru** | 08:50 |
| Gwers 1 | 09:10 |
| Gwers 2 | 10:00 |
| Egwyl bore | 10:52 |
| Gwers 3 | 11:10 |
| Gwers 4 | 12:00 |
| Cinio | 12:52 |
| Cofrestru | 13:43 |
| Gwers 5 | 13:48 |
| Gwers 6 | 14:38 |
| Diwedd Ysgol | 15:30 |

Oriau Dysgu Cyfnod Allwedol 3:  25 awr

Oriau Dysgu Cyfnod Allweddol 4: 25 awr

Disgwylir bod y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Os oes disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, hynny yw, ar ôl y cyfnod cofrestru, rhaid i'r rhiant arwyddo a nodi rheswm dros fod yn hwyr mewn llyfr pwrpasol yn y swyddfa.



**Dwyieithrwydd**

**Mae hon yn ysgol gynradd ddwyieithog yn Awdurdod Lleol Powys. Ein nod yw i bob plentyn gyrraedd y lefel rhuglder uchaf bosibl yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn annog rhieni i gofleidio'r cyfle i'w plant fod yn ddwyieithog gan fod yna lawer o fuddion:**

- **Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus ym myd addysg. Maent yn tueddu i berfformio'n well mewn tasgau**
- **Mae pobl ddwyieithog yn ei chael hi'n haws dysgu ieithoedd ychwanegol**
- **Mae siarad dwy iaith yn sgil ychwanegol i'w rhoi ar eich ffurflen gais**
- **Mae pobl ddwyieithog yn ennill 11% yn fwy ar gyfartaledd**
- **Mae angen gweithluoedd dwyieithog ar gyflogwyr yng Nghymru, oherwydd mae angen cynnig gwasanaethau yn ddwyieithog**

**Mae'r ysgol wedi'i ffrydio'n ieithyddol. Addysgir disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r nod o ddod yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd blwyddyn 6, ac addysgir disgyblion trwy gyfrwng y Saesneg gyda sesiynau Cymraeg dyddiol. Ein nod yw ei gwneud yn hawdd i’n disgyblion drosglwyddo neu barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.**

**Anogir defnydd y disgyblion o'r Gymraeg mewn gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol gan ddilyn gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Datblygir hyn yn yr ysgol trwy fentrau Siarter Iaith a Cymraeg Campus.**



**Clwb Brecwast (Clwb Cynnar)**

Mae'r Clwb Brecwast ar agor bob dydd ar y Campws Cynradd rhwng 07:45y.b a 08:45y.b. Mae'r staff yn gweini grawnfwydydd, tost yn ogystal ag iogwrt a sudd. Y gost yw £1.50 y dydd. Darperir brecwast am ddim; fodd bynnag, codir tâl am ofal plant.

**Clwb ar ôl Ysgol**

Mae'r clwb ar ôl ysgol, sy'n cael ei drefnu'n annibynnol o'r ysgol, ar agor i blant o 3.15y.h. - 5.30y.h. Y gost yw £6 y plentyn ac yna £5 am bob brawd neu chwaer. Darperir ystod o weithgareddau i'r plant ac maen nhw'n cael byrbryd iach. Am wybodaeth pellach, cysylltwch â Miss Rowena Huxley ar HuxleyR1@brocaereinion.powys.sch.uk

**Cinio Ysgol**

Mae’r ysgol yn darparu prydau bwyd iach, maethlon. Mae dewis o brydau traddodiadol, tatws pob, byrbrydau poeth, brechdanau a saladau ar draws y ddau gampws. Y gost yw £2.35 y diwrnod ar y Campws Cynradd ac amrywiol ar y Campws Uwchradd. Gwneir y taliad yn electronig drwy wefan Parent Pay. Mae'r fwydlen ar gael o wefan Powys.

Efallai yr hoffech i'ch plentyn ddod â bocs bwyd. Rydym yn annog rhieni i ddarparu cinio iach a chytbwys i'w plant.

**Byrbryd Amser Egwyl**

Anogir disgyblion i ddod â ffrwythau i'w bwyta amser egwyl. Mae byrbrydau poeth ac oer ar gael i'w prynu ar y Campws Uwchradd.

Llaeth

Mae llaeth am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion Derbyn, Blwyddyn 1 a 2. .

**Polisi Mynediad i'r Ysgol**

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn unol â Pholisi Awdurdod Lleol Powys. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed (os yw rhieni'n dymuno). Rhaid gwneud cais cynnar am le i'ch plentyn yn yr ysgol.

Os ydych am drosglwyddo eich plentyn i Ysgol Bro Caereinion, neu os yw eich plentyn ym Mlwyddyn 6 yn trosglwyddo i'r campws uwchradd, rhaid llenwi ffurflen gais a'i hanfon i'r sir.

Mae ffurflenni ar gael ar wefan Cyngor Sir Powys:
https://cy.powys.gov.uk/article/7627/Gwneud-Cais-am-Le-Mewn-Ysgol

**Croeso i Ysgol Bro Caereinion**

Os yw'ch plentyn yn ymuno â ni am y tro cyntaf, rydym yn estyn croeso cynnes i chi fel rhieni ac edrychwn ymlaen at berthynas hapus a llwyddiannus dros y blynyddoedd i ddod.

Gwahoddir rhieni i'r ysgol i gwrdd â'r Pennaeth a chael taith o amgylch yr ysgol - gan ddilyn rheoliadau covid 19.

Fel rhieni, mae gwahoddiad cynnes ichi weithio gyda ni yn natblygiad eich plentyn. Ein nod yw cael perthynas dda â chi oherwydd ein bod yn credu bod addysg yn bartneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a'r cartref.



**Diogelu ac Amddiffyn Plant**

Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam – drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, i ddweud wrth y person dynodedig sydd â chyfrifoldeb Diogelu Plant yr Ysgol. Gall y person dynodedig ymgynghori a chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i'r person dynodedig gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol yr awdurdod. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oherwydd natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

**Yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn yr ysgol yw:**
Mrs Ceri Harris, CADU
**Y Dirprwy Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn yr ysgol yw:**
Miss Laura Jones, Pennaeth Cynorthwyol
Miss Rhian Mills, Pennaeth Cynorthwyol
Mrs Nicola Lewis, Goruchwylwyr Llanw
**Y Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn yr ysgol yw:**
Dr Margaret Jones

O dro i dro byddwn yn cyhoeddi lluniau'r disgyblion at wahanol dibenion. Mae gennym ffurflenni pwrpasol ar gyfer cael caniatâd gan rhiant / ofalwr cyn gwneud hyn. Ni chaniateir i unrhyw riant rhoi llun o ddisgyblion eraill yr ysgol ar unrhyw safle cymdeithasol rhwydweithiol, heblaw am eu plant eu hunain.

Trefniadau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures



**Cwricwlwm i Gymru**

Mae Ysgol Bro Caereinion yn gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar y Campws Cynradd a fydd â mwy o bwyslais ar arfogi pobl ifanc am oes. Pwrpas y cwricwlwm newydd, Cwricwlwm i Gymru, yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu trwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae gan y cwricwlwm newydd chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh):

- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau (including RE which should remain compulsory to age 16)
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'n cynnwys cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol.

**Cyfnod Allweddol 3**

Cyfnod Allweddol 3 Yn ystod y tair blynedd gyntaf, mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm yn ol gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

I Flwyddyn 7 mae hyn yn cynnwys: Cymraeg Mamiaith ac Ail Iaith, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth, Celf, Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol, Ffrangeg, Cerddoriaeth ac Addysg Gorfforol a Chwaraeon.

Fel arfer dysgir y pynciau mewn pedwar dosbarth gallu cymysg a darperir cymorth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol. Mae’r help yma ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg.

Ym Mlwyddyn 8 mae’r un cwrs cyffredinol yn parhau ond fel arfer dysgir y pynciau craidd bellach mewn grwpiau yn ôl gallu’r disgybl.

Ym Mlwyddyn 9 mae’r un cwrs cyffredinol yn parhau ond yn ystod Blwyddyn 9, rhaid gwneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â chyrsiau dewisol disgyblion ar gyfer Blwyddyn 10 ac 11. Rhoddir gwybodaeth lawn i rieni a disgyblion ynglŷn â manylion y cyrsiau a’r Llwybrau Dysgu 14-19. Bydd yr Ysgol yn cyhoeddi llawlyfr opsiynau a cheir gwybodaeth ychwanegol ar wefan Gyrfa Cymru www.careerswales.com.



**Cyfnod Allweddol 4**

Ym Mlynyddoedd 10 ac 11 mae pawb yn dilyn cwricwlwm craidd sy’n cynnwys Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Y Fagloriaeth Gymraeg, Addysg Grefyddol, Gyrfaoedd/ ABCh Addysg Gorfforol a Chwaraeon, gyda’r pedwar cyntaf yn cael eu dilyn hyd at safon arholiad allanol. Mae pob disgybl hefyd yn unol â Llwybrau Dysgu 14-19 yn dewis tri phwnc arall o ddarpariaeth gyhwysfawr. Yn ogystal â chyrsiau TGAU cynigir cyrsiau Galwedigaethol. Manylir ar y ddarpariaeth a’r dewisiadau yn Llawlyfr Dewisiadau Blwyddyn 10, sydd ar gael o’r Ysgol.

6ed Dosbarth

Mae Ysgol Bro Caereinion yn gallu darparu amrywiaeth o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac rydym yn cydweithio'n agos gyda'n hysgolion cyfagos o dan faner TRISGOL. Anelwn at ddatblygu'r sgiliau allweddol, y sgiliau craidd a'r rhinweddau personol hynny a fydd yn hanfodol yn y dyfodol, megis cyfathrebu, rhifedd, sgiliau technoleg gwybodaeth, gweithio gydag eraill, hunan-wella, datrys problemau, hunanddisgyblaeth, trefniadaeth a hunan hyder.

**Trisgol**

Ysgolion a Cholegau gogledd Powys yn cydweithio er mwyn cynnig yr amrediad mwyaf posib o bynciau i'r disgyblion. Mae bysiau neu dacsi yn eu cludo nhw i'r ysgolion eraill ac yn ôl i'r lle maen nhw'n dal y bws yn y bore wrth ddod adref. Cyfle i fanteisio felly ar arbenigedd staff mewn ysgolion eraill. Mae disgyblion TRISGOL yn fodlon ac yn hapus yn teithio i leoedd eraill.
· Trafnidiaeth am ddim i fyfyrwyr sy'n mynd o Fro Caereinion i safleoedd eraill.
· Bydd myfyrwyr yn cyrraedd yr Ysgol yn y bore trwy ddulliau arferol ac yna eu cludo i safleoedd eraill fel bo'r angen.
· Bydd myfyrwyr sy'n astudio ar safleoedd eraill yn y bore yn cael eu cludo nôl i Fro Caereinion.

**E-sgol**

Mae e-sgol yn brosiect sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo ysgolion mewn ardaloedd gwledig yn bennaf gyda'u darpariaeth chweched dosbarth a'u darpariaeth cyfrwng Cymraeg.  Egwyddor ganolog e-sgol yw sicrhau bod dysgwyr, ble bynnag maent wedi'u lleoli, yn cael cyfleoedd i astudio pynciau nad ydynt ar gael yn eu hysgolion efallai.
Darperir y gwersi gan ddefnyddio dulliau dysgu cyfunol drwy gyfrwng Hwb. Defnyddir Microsoft Teams i gynnig y gwersi fel Amgylchedd Dysgu Rhithwir, a defnyddir Microsoft OneNote i greu nodiadau ac arnodi cyflwyniadau. Mae'r holl staff, athrawon, Technegwyr TG, a'r dysgwyr eu hunain yn cael hyfforddiant cyn i'r gwersi ddechrau, ac yna ar adegau niferus yn ystod y flwyddyn.
www.e-sgol.cymru/cy

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr o 3 i 16 oed. Mae gofynion cyfreithiol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn briodol o ran datblygiad, gan gynnwys yr adnoddau y mae ysgolion yn eu defnyddio wrth weithredu ACRh.

Mae pynciau fel diogelwch ar-lein, caniatâd ac iechyd rhywiol i gyd wedi'u cynnwys yn y Cod, ond ar gamau datblygu priodol fel nad yw dysgwyr yn cael eu hamlygu i bethau nad ydynt yn briodol i'w hoedran a'u datblygiad.

Yn iau, er enghraifft, byddant yn cael eu haddysgu am drin ei gilydd gyda charedigrwydd ac empathi. Wrth i blant dyfu'n hŷn, byddant yn dod i ddeall pynciau fel diogelwch ar-lein, caniatâd ac iechyd rhywiol – a bydd pob un ohonynt yn cael eu trin mewn ffordd sensitif.

Bydd dysgu mewn ACRh hefyd yn cynnwys cydnabod, deall a siarad am bob math o wahaniaethu, trais, cam-drin ac esgeulustod a cheisio cymorth a chyngor ar ystod o faterion o ffynonellau dibynadwy.

Mae gofyniad cyfreithiol hefyd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn lluosog: sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau ddarparu gwybodaeth ffeithiol ac ar gwestiynau am werthoedd, amrywiaeth o safbwyntiau ar bwnc penodol, a ddelir yn gyffredin mewn cymdeithas.

## Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd

Cynhelir addoli ar y cyd fel ysgol gyfan, cyfnod allweddol neu fesul dosbarth yn ddyddiol. Unwaith eto, glynir yn gaeth at reoliadau Covid 19. Mae naws Cristnogol i'r sesiynau hyn ond cyflwynir themau amrywiol, agweddau cymdeithasol a phwysigrwydd agweddau moesol. Ysgol anenwadol yw Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion ac yn unol â'r Ddeddf, dysgir beth a osodir gan y pwyllgor SACRE lleol. Addysgir crefyddau a gwyliau eraill trwy gydol y flwyddyn e.e. Cristnogaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth ac Islam. Mae ymweliadau gan sefydliadau crefyddol yn digwydd e.e. Tîm Impact, eglwysi a chapeli.

Mae gan unrhyw riant yr hawl i eithrio plentyn o'r sesiynau addoli ar y cyd. Dylid trafod hyn gyda'r pennaeth.

**Chwaraeon ac Addysg Gorfforol**

Mae'r Ysgol yn ffodus iawn ei bod yn gallu mwynhau amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon. Mae'r disgyblion yn gallu manteisio ar y cyfleusterau ardderchog sydd ar gael yn y ganolfan hamdden ar gampws yr ysgol.

Gellir cynnig tri chwrt bandminton, un cwrt pel foli, un cwrt pel fasged neu faes pel droed 5 bob ochr yn y Neuadd Chwaraeon. Yn gyfagos i'r Neuadd, ceir ystafell cadw'n heini [ynghyd â'r holl gyfarpar] a dau gwrt sboncen. Mae hyn oll yn ychwanegol i gampws eang ac agored sydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer trawsgwlad, dau gae pêl droed, sgwâr criced, cyrtiau tenis a thrac rhedeg 200 metr.

Disgwylir i bawb gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau a rhoddir dwy wers yr wythnos i Addysg Gorfforol yn CA3 a CA4. Bydd y cwricwlwm yn cynnwys ffitrwydd a iechyd, athletau, gymnasteg, dawns, hoci, pêl–rwyd, pêl-droed, rygbi, tenis, rownderi a thraws gwlad. Yn ogystal mae'r swyddog 5x60 yn gyfrifol am drefnu ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Mae chwaraeon cystadleuol hefyd yn bwysig iawn i ni fel ysgol. Cynhelir cystadlaethau rheolaidd yn yr ysgol, rhwng ysgolion, yn yr Urdd ac ar lefel Sirol a Chenedlaethol.





**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Rhoddir sylw arbennig i bob plentyn ag anghenion ychwanegol - p'un a yw'n fwy abl neu ag anghenion dysgu corfforol neu eraill. Rydym yn defnyddio system sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i weithio gyda phlant, rhieni a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod llais ac anghenion y plentyn wrth wraidd popeth a wnawn. Ein nod yw adeiladu ar gryfderau pob disgybl wrth inni fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu.

Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Mrs Ceri Harris) yn cwrdd yn rheolaidd â'r athrawon dosbarth i greu targedau ar gynlluniau datblygu unigol ar gyfer y disgyblion. Rhennir a thrafodir y cynlluniau hyn gyda rhieni bob tymor.

Cefnogir y disgyblion yn yr ystafell ddosbarth gan yr athrawon dosbarth, cynorthwywyr dysgu a'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Cyfleoedd Cyfartal**

Credwn y dylai pawb - pob aelod o staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion o ba bynnag gefndir, hil, rhyw, rhywioldeb, oedran neu allu, dderbyn cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Rydym yn annog pob unigolyn i barchu eraill y tu mewn a thu allan i gymuned yr ysgol. Ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw fath o iaith neu ymddygiad hiliol a allai achosi niwed i unrhyw grŵp ethnig neu grŵp hiliol a bydd yn cael ei herio. Rydym yn sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'r holl gynllunio a gwneud penderfyniadau ar draws pob rhan o'r ysgol. Rhennir gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiad gyda'r Awdurdod Lleol. Mae gan yr ysgol bolisi Cyfle Cyfartal.

**Cyfleoedd Cyfartal i Bobl ag Anableddau**

Mae cynllun presennol y safle a'r adeilad yn heriol i ddisgyblion a rhieni ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fydd disgybl ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion a rhieni ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae cynllun hygyrchedd ar gael gan yr ysgol.



**Pwyllgorau Llais y Disgybl**

Bob blwyddyn rhoddir cyfle i ddisgyblion fod yn rhan o bwyllgor llais disgyblion. Mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi llais i ddisgyblion fynegi eu barn, rhannu eu syniadau a chymryd cyfrifoldeb ym mywyd yr ysgol. Mae'r pwyllgorau'n cyfarfod o leiaf unwaith bob hanner tymor ac yn cadw cofnodion. Mae cynrychiolwyr o flynyddoedd 1 - 13 yn cael eu hethol yn flynyddol.

**Cyngor Ysgol -** Cyngor yr Ysgol yw'r senedd yn yr ysgol. Bydd y swyddogion yn gweithredu am dymor o flwyddyn. Nod y cyngor yw rhoi barn a llais i'r disgyblion ar sut i symud yr ysgol yn ei blaen. Mae llais y disgybl yn ganolog i holl waith yr ysgol.

**Pwyllgor Eco -** Mae'r Eco-Bwyllgor yn gyfrifol am wella datblygu cynaliadwy yn yr ysgol a'r amgylchedd. Mae cynrychiolwyr disgyblion yn sicrhau bod cyfathrebu ieffeithiol rhwng yr Eco-Bwyllgor a gweddill yr ysgol.

**Pwyllgor Ysgolion Iach -** Mae'r pwyllgor Ysgolion Iach yn annog byw bywyd iach. Nodau'r rhaglen yw: Cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu ymddygiadau iach, Helpu i godi cyflawniad ymhlith plant a phobl ifanc, Helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd, Helpu i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.
Mae yna 4 thema allweddol, sef: Bwyta'n Iach, Gweithgaredd Corfforol, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABCh) ac Iechyd a Lles Emosiynol.

**Dewiniaid Digidol -** Mae'r Dewiniaid Digidol yn cefnogi datblygiad dysgu digidol a diogelwch ar-lein yn yr ysgol.

**Llysgenhadon Chwaraeon -** Mae'r Llysgenhadon Chwaraeon yn annog cadw'n heini ac yn iach ac yn trefnu mentrau yn yr ysgol fel 'milltir y dydd'.

**Llysgenhadon Gwych -** Mae'r Llysgenhadon Gwych yn gyfrifol am ddysgu eraill am hawliau plant a'r cyfrifoldebau sy'n dod gyda'r hawliau hynny.

Criw Cymraeg - Mae'r Criw Cymraeg yn hyrwyddo Iaith a diwylliant Cymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned leol.

**Gwaith Allgyrsiol**

Ystyrir bod gwaith allgyrsiol yn hanfodol i ddatblygiad pob disgybl. Rydym yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n ennyn hunan barch, sy'n ehangu profiadau, sy'n datblygu hyder ac sy'n rhoi profiadau sy'n gallu rhannu llwyddiant.

Ymhlith y clybiau sydd ar gael gennym mae:

- Clwb yr Urdd - dawnsio, canu,celf a chrefft, llefaru
- Clwb Chwaraeon - pêl-droed, pêl-rwyd, hoci, rowderi a criced
- Clwb Codio
- Clwb Celf a Choginio
- Band Jazz

Mae digwyddiadau eraill gan gynnwys gweithgareddau elusennol yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn e.e. Plygain, Gwasanaeth Diolchgarwch, Plant Mewn Angen, cwis llyfrau, Eisteddfodau.

**Ymweliadau Addysgol**

Mae Ymweliadau Addysgol yn bwysig iawn i roi profiadau bywyd go iawn i ddisgyblion fel rhan o'u datblygiad. Rhoddir cyfle i Flwyddyn 3 a 4 aros yng Nghanolfan Red Ridge a rhoddir cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 fwynhau taith breswyl yng Nghanolfan Urdd yn Llangrannog yn nhymor yr Haf.
Pan drefnir teithiau, ymweliadau theatr a digwyddiadau eraill, gofynnwn am gyfraniad i gynorthwyo gyda'r costau.



Gwisg Ysgol

Y gobaith yw y bydd pob disgybl yn gwisgo'r wisg ysgol oherwydd mae'n:
• hyrwyddo ymdeimlad o falchder yn yr ysgol;
• creu ymdeimlad o gymuned a pherthyn i'r ysgol;
• meithrin cydnabyddiaeth o gymuned, ethos a gwerthoedd yr ysgol;
• ymarferol ac yn unigryw;
• gwneud i ddisgyblion deimlo'n gyfartal â'i gilydd o ran ymddangosiad;
• cael ei ystyried yn werth da am arian.



Eitemau Gwisg Ysgol:
- crys chwys ysgol glas tywyll gyda logo
- crys polo glas brenhinol gyda logo
- trowsus neu sgert ddu
- siorts du - Tymor yr Haf yn unig
- Cyfnod Cynradd - ffrog gingham glas a gwyn - Tymor yr Haf yn unig
- esgidiau du neu frown tywyll

Eitemau Addysg Gorfforol
- crys glas brenhinol a du gyda logo ysgol
- siorts du
- sannau du

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu enw eich plentyn yn glir ar bob dilledyn. Anogir disgyblion i beidio â gwisgo gemwaith, colur na farnais ewinedd i'r ysgol.

Gellir prynu'r wisg oddi wrth:

Constructiv Clothing - http://www.constructiv.co.uk

Mid Wales Embroidery - https://www.midwalesembroidery.com

Welshpool Printing Group - https://www.wpg-group.com

**Asesiad**
Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig blynyddol i rieni ar gynnydd eu plentyn. Yn y Cyfnod Uwchradd, caiff disgyblion un adroddiad ysgrifenedig ac un noson rieni ynghyd ag adroddiadau cynnydd disgyblion trwy gydol y flwyddyn. Rhoddir asesiadau personol mewn rhifedd a darllen i ddisgyblion Blwyddyn 2 - Blwyddyn 9. Cynhelir nosweithiau agored yn dymhorol er mwyn i rieni weld gwaith eu plant a thrafod eu datblygiad gyda'r athrawon.



**Cymorth Cartref**
Anogir disgyblion i ddarllen gartref gyda'u teuluoedd, ymarfer eu tablau ar 'Times Table Rock Stars', ymarfer sillafu. Nid oes unrhyw waith cartref penodol, fodd bynnag, weithiau gellir gosod prosiect / gwaith cartref yn gysylltiedig â thema. Bydd yr athrawon yn anfon cyfarwyddiadau clir ar gyfer rhieni i'w cefnogi gartref.

**Gwersi Offerynnol**
Mae disgyblion o Flwyddyn 2 ymlaen yn cael cyfle i chwarae ffidil, chwythbrennau, pres, piano, drymiau, ukelele neu gitâr gyda thiwtoriaid sy'n ymweld â'r ysgol yn wythnosol. Anfonir llythyrau gyda chostau ac amserlen ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.



**Ffrindiau Ysgol BroCaereinion**

Mae gan yr ysgol gymdeithas rhieni ac athrawon o'r enw Ffrindiau Ysgol Bro Caereinion. Fe'i sefydlwyd i gefnogi gwaith yr ysgol trwy godi arian i brynu adnoddau a chyfrannu at deithiau a gweithgareddau yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mae pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd i drefnu digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn ysgol. Gall unrhyw un fod ar Ffrindiau'r Ysgol a helpu mewn unrhyw ffordd y gallant. Ewch i Facebook Ffrindiau'r Ysgol i gael mwy o wybodaeth.





**Presenoldeb**

Mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol i sicrhau parhad, datblygiad a dilyniant mewn addysg. Disgwylir i bob disgybl fynychu'r ysgol yn brydlon ac yn rheolaidd. Os yw disgybl yn absennol, gofynnir i'r rhiant gysylltu â'r ysgol cyn 09:30. Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni ynghylch absenoldeb os na dderbynnir eglurhad. Os yw disgybl yn absennol yn rheolaidd bydd y pennaeth yn cysylltu â Swyddog Lles yr Awdurdod Swyddog Addysg. Mae'r ysgol yn dilyn camau gweithredu Llwybr Presenoldeb Awdurdod Lleol Powys. Mae manylion llawn ar gael ar wefan yr ysgol.

**Trafnidiaeth**

Mae cludiant am ddim ar gael i rieni sy'n dymuno i'w plant deithio ar fws i'w hysgol agosaf. Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r pennaeth.

**LPlant Mewn Gofal**

Mae gan blant mewn gofal yr hawl i ddisgwyl y canlyniadau rydyn ni eu heisiau ar gyfer pob plentyn. Bydd y CADU, fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddatblygiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, yn cydweithredu'n agos â'r awdurdod addysg er mwyn sicrhau eu bod yn cael pob cyfle posibl.

**Toiledau**

Mae gan yr ysgol ddigon o doiledau ar gyfer y disgyblion. Mae'r cyfleusterau'n addas ar gyfer oedran y plant sy'n eu defnyddio. Mae toiledau ychwanegol ar gael at ddefnydd staff ac ymwelwyr. Mae'r toiledau'n cael eu glanhau ym ddyddiol.

**Polisi Codi Tâl**

Gofynnir i rieni am daliadau gwirfoddol i dalu costau ymweliadau addysgol a theithiau ysgol, cludiant theatr neu weithgareddau chwaraeon. Os ydych chi'n cael anhawster talu am unrhyw ymweliad, cysylltwch â'r pennaeth.

**Polisi Cwynion**

Os yw rhiant yn anhapus ag agwedd addysgol benodol, dilynir y polisi cwynion. Yn gyntaf, cysylltwch â'r pennaeth i drafod y gŵyn. Bydd y pennaeth yn gwneud pob ymdrech i ateb y gŵyn yn foddhaol. Os nad ydych wedi'ch bodloni, rhaid i chi gyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig i'r pennaeth. (Os oes gennych gŵyn am y pennaeth, rhaid i chi ysgrifennu llythyr at gadeirydd y corff llywodraethu.) Os ydych chi'n dal heb eich bodloni rhaid i chi ysgrifennu trwy gyfeiriad yr ysgol at gadeirydd y corff llywodraethu yn nodi'ch rhesymau dros ofyn i bwyllgor cwynion y corff llywodraethu ystyried eich cŵyn. Mae copi llawn o'r polisi cwynion ar wefan yr ysgol.

**Polisïau**

Mae copïau o bolisïau'r ysgol ar gael yn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

# ATODIAD 1 - Aelodau'r Corff Llywodraethol Dros Dro 2022 - 2023

Cadeirydd y Corff Llywodraethol Dros Dro: Mr Gareth Jones

Clerc (nid yn aeold o'r Corff Llywodraethol): Mrs Jennifer Wilde

Ebost: jennifer.wilde@powys.sch.uk

| **Enw** | **Math o Lywodraethwr** | **Tymor Swydd** |
|---|---|---|
| Mr Huw Lloyd Jones | Pennaeth | Interim |
| Mrs Alison Evans | Athro / Athrawes | Interim |
| Mr Glyn Lloyd | Staff | Interim |
| Mrs Myfanwy Alexander | Cyngor Sir | Interim |
| Mrs Eleri Mills | Cyngor Sir | Interim |
| Mrs Julie Jones | Cyngor Sir | Interim |
| Cllr Heulwen Hulme | Cyngor Sir | Interim |
| Mr Arwyn Jones | Cyngor Sir | Interim |
| Mrs Nia Pryce | Rhiant | Interim |
| Mr Bryn Francis | Rhiant | Interim |
| Mrs Ruth Bates | Rhiant | Interim |
| Mrs Eleri Jones | Rhiant | Interim |
| Mrs Wendy Lydford | Rhiant | Interim |
| Mr Huw Tudor | Cymunedol | Interim |
| Dr Margaret Jones | Cymunedol | Interim |
| Mrs Jilly Barker | Cymunedol | Interim |
| Mrs Ann Watkin-Jones | Cymunedol | Interim |
| Mrs Sian Pugh | Cymunedol | Interim |
| Cllr Gareth Jones | Cymunedol Ychwanegol | Interim |

# ATODIAD 2 - Dyddiadau'r Tymhorau

Powys

## 2022 – 2023 CALENDR YSGOLION

| Tymor yr Hydref 2022 | Dyddiadau Dim Disgyblion | Nifer y Dyddiau Ysgol |
|---|---|---|
| Dydd Llun  Medi<br>hyd<br>Dydd Gwener 28 Hydref | Dydd Iau 1 Medi [1]<br>Dydd Gwener 2 Medi [1] | 40 o ddyddiau |

**Hanner Tymor – Dydd Llun 31 Hydref i ddydd Gwener 4 Tachwedd**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun 7 Tachwedd<br>hyd<br>Dydd Mercher 21 Rhagfyr | | 33 o ddyddiau |

| Tymor y Gwanwyn 2023 | Dyddiadau Dim Disgyblion | Nifer y Dyddiau Ysgol |
|---|---|---|
| Dydd Llun 9 Ionawr<br>hyd<br>Dydd Gwener 17 Chwefror | | 30 o ddyddiau |

**Hanner Tymor – Dydd Llun 20 Chwefror to dydd Gwener 24 Chwefror**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun 27 Chwefror<br>hyd<br>Dydd Gwener 31 Mawrth | | 24 o ddyddiau |

| Tymor yr Haf 2023 | Dyddiadau Dim Disgyblion | Nifer y Dyddiau Ysgol |
|---|---|---|
| Dydd Llun 17 Ebrill<br>hyd<br>Dydd Gwener 26 Mai | | 29 o ddyddiau |

**Hanner Tymor – Dydd Llun 29 Mai i ddydd Gwener 2 Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun 5 Mehefin<br>hyd<br>Dydd Gwener 21 Gorffennaf | Dydd Llun 24 Gorffennaf [1] | 35 o ddyddiau |

**Dyddiau heb ddisgyblion**: bydd yna dwy diwrnod ychwanegol heb ddisgyblion, wedi'u cytuno ar sail clwstwr. Gwiriwch wefan eich ysgol i weld pryd y bydd y dyddiadau hyn yn digwydd.

| | |
|---|---|
| **Gwener y Groglith:** | Dydd Gwener 7 Ebrill 2023 |
| **Dydd Llun y Pasg:** | Dydd Llun 10 Ebrill 2023 |
| **Gŵyl Banc Calan Mai:** | Dydd Llun 1 Mai 2023 |
| **Gŵyl Banc ddiwedd mis Mai:** | Dydd Llun 29 Mai 2023 |
| **Sioe Frenhinol Cymru:** | Dydd Llun 24 Gorffennaf i ddydd Iau 27 Gorffennaf 2023 |

YSGOL BRO
CAEREINION

Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. Medi 2022